

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a
Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)
Education and Family Support Directorate –
Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: (01656) 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU
Dyddiad / Date: 23 Hydref 2020

Annwyl riant/gofalwr

Caiff 'cyfnod atal byr' ei gyflwyno ledled Gymru ddiwedd yr wythnos hon er mwyn helpu i gael rheolaeth dros y coronafeirws unwaith yn rhagor ac i arafu ei ledaeniad. Gan hynny, bydd cyfres o gyfyngiadau ar waith rhwng 6pm ddydd Gwener 23 Hydref tan 12.01am ddydd Llun 9 Tachwedd 2020.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y bydd y cyfnod atal byr yn ei olygu, darllenwch y cwestiynau cyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin>

Er bod y cyfyngiadau cenedlaethol a lleol sydd wedi bod ar waith ledled Gymru wedi helpu i atal y coronafeirws rhag lledaenu, mae cytundeb cyffredinol cynyddol fod angen cymryd camau ychwanegol yn awr. Gan fod nifer yr achosion yn cynyddu, y nifer sy'n gorfod cael triniaeth yn yr ysbyty'n cynyddu a'r nifer sy'n marw bob dydd yn cynyddu, mae angen cyflwyno'r cyfyngiadau ychwanegol hyn.

Hoffwn roi rhywfaint o wybodaeth i chi am y modd y gallai'r mesurau newydd hyn effeithio ar eich plant a'u haddysg.

Pa blant fydd yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl y gwyliau hanner tymor?

Bydd plant ysgolion cynradd a disgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn dychwelyd i'r ysgol fel arfer ddydd Llun, 2 Tachwedd 2020.

Bydd pob plentyn sy'n mynd i ysgol arbennig hefyd yn gallu mynd i'r ysgol fel arfer. Mae hyn yn cynnwys Ysgol Arbennig Heronsbridge, Ysgol Bryn Castell, y Bont a'r holl ganolfannau adnoddau dysgu yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd.

Nid oes trefniadau i'r plant a'r bobl ifanc hyn fedru dysgu o bell gan y byddant yn cael eu dysgu'n uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth.

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Bydd disgyblion Blwyddyn 9 a hŷn yn aros gartref am wythnos arall ar ôl y gwyliau hanner tymor ac ni ddylent fynd i'r ysgol tan hynny. Bydd trefniadau ar waith i'r disgyblion hyn ddysgu o bell.

Bydd holl staff yr ysgolion yn bresennol yn yr ysgl yn ystod yr wythnos yn dechrau ddydd Llun 2 Tachwedd.

A fydd trefniadau dysgu o bell ar gyfer y plant hynny na fyddant yn dychwelyd i'r ysgol?

Hoffwn eich sicrhau chi y bydd trefniadau dysgu o bell ar waith i'r holl ddisgyblion sy'n gorfod aros gartref yn ystod ail wythnos y cyfnod atal. Mae'n bwysig iawn i bob disgybl fanteisio ar y gweithgareddau dysgu o bell y bydd yr ysgolion yn eu trefnu.

Bydd nifer ohonoch eisoes yn gyfarwydd â'r trefniadau dysgu o bell. Er hynny, byddwn yn eich annog i holi'r ysgol a chael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a ddisgwylir, pryd bydd y gwersi'n dechrau a pha gymorth fydd ar gael.

Mae ysgolion wedi gweithio'n galed i addasu'r dysgu sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth i'r gweithgareddau dysgu o bell. Mae'n bwysig bod disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd dysgu hyn.

Ni fydd ysgolion yn trefnu gweithgareddau dysgu o bell i blant ysgolion cynradd na phlant Blwyddyn 7 ac 8 na disgyblion eraill sy'n aros gartref yn lle mynd i'r ysgol (ar wahân i'r plant hynny sy'n hunanyngysu) yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 2 Tachwedd.

Pecynnau bwyd i blant sy'n cael cinio ysgol am ddim

Bydd pob plentyn sydd â hawl i gael cinio ysgol am ddim yn cael pecyn bwyd yn ystod hanner tymor a hefyd yn ystod ail wythnos y cyfnod atal byr (hy yr wythnos sy'n dechrau 2 Tachwedd 2020), os nad ydynt yn perthyn i'r grwpiau blwyddyn a fydd yn dychwelyd i'r ysgol.

Os ydych chi wedi dewis peidio â chael pecynnau bwyd yn y gorffennol, bydd yr awdurdod lleol yn cymryd yn ganiataol na fyddwch yn dymuno cael pecyn bwyd yn ystod hanner tymor (gan gynnwys yr wythnos yn dechrau 2 Tachwedd 2020 os yw hynny'n berthnasol i'ch plentyn chi).

Yn anffodus, ni allwn ddarparu ar gyfer deietau arbennig drwy'r prydau wedi'u rhewi a baratowyd yn flaenorol. Felly, pecyn bwyd safonol fydd yn cael ei ddanfoni i gartref pob disgybl cymwys.

Cludiant rhwng y cartref a'r ysgol

Bydd y cludiant arferol rhwng y cartref a'r ysgol ar gael yn ystod yr wythnos ar ôl hanner tymor (hy yr wythnos yn dechrau ddydd Llun 2 Tachwedd 2020).

Mae'n bwysig bod disgyblion Blwyddyn 9 (a hŷn) yn aros gartref yn ystod yr wythnos yn dechrau ddydd Llun 2 Tachwedd.

Beth ddylwn i wneud os bydd fy mhientyn yn wael?

Er bod trefniadau cynhwysfawr ar waith i leihau'r risg cysylltiedig â'r coronafeirws yn yr ysgolion, mae gan yr holl ddysgwyr a'u teuluoedd, a staff yr ysgol, ran hanfodol yn y broses o

ddiogelu cymuned yr ysgol. Yn y cyswllt hwn, rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n dilyn y canllawiau cenedlaethol yn ymwneud â'r coronafeirws bob amser, yn ogystal â'r trefniadau penodol sydd ar waith ym mhob lleoliad.

Cofiwch, ni waeth ym mha grŵp blwyddyn y mae'ch plentyn, os yw'n wael, ac yn dangos unrhyw un o symptomau'r coronafeirws isod, neu wedi cael canlyniad positif ar ôl cael prawf coronafeirws, peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol.

Dyma brif symptomau'r coronafeirws:

- tymheredd uchel – y frest neu'r cefn yn teimlo'n boeth;
- peswch newydd, parhaus – pesychu'n aml, am dros awr, neu dri phwl o besychu mewn 24 awr; a
- newid yn y gallu i aroglu neu flasau – ni all aroglu na blasu unrhyw beth, neu mae pethau'n aroglu neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.

Os yw'ch plentyn yn dangos unrhyw un o brif symptomau'r coronafeirws:

- trefnwch iddo gael prawf cyn gynted â phosibl i weld a yw wedi dal y coronafeirws; ac
- arhoswch gartref a gofawch nad oes neb yn ymweld â'ch cartref nes cewch ganlyniad y prawf.

Yn ogystal â hyn, peidiwch af anfon eich plentyn i'r ysgol os yw unrhyw un ar eich aelwyd yn dangos symptomau'r coronafeirws, neu'n aros am ganlyniad prawf neu wedi cael canlyniad positif yn ystod y 14 diwrnod diwethaf a dilynwch [hunanyysu- canllawiau aros gartref](#) Llywodraeth Cymru.

Os nad yw'ch plentyn yn dangos symptomau'r coronafeirws, fodd bynnag, ond yn dangos symptomau anwyd, ee os yw ei drwyn yn rhedeg, nid oes angen trefnu prawf iddo ac nid oes angen iddo hunanyysu.

Diolch i chi, unwaith eto, am eich cefnogaeth barhaus.

Yr eiddoch yn gywir/Yours sincerely



Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)
Education and Family Support Directorate Support Unit (EDSU)**